

## Bywydeg a rheolaeth gwlithod

### Cefndir

Gwlithod yw'r pla mwyaf cyffredin sy'n effeithio ar bob ffermwr a thyfwr. Ceir 29 o rywogaethau o wllithod yn y DU. Daw'r rhai mwyaf dinistriol o grwpiau *Deroceras*, *Arion* a *Malix*. Ychydig iawn o gnydau nad effeithir arnynt gan fod gwlithod yn lluosfwytaol ac yn bwydo trwy gydol y flwyddyn, pryd bynnag y bydd yn lled oer/cynnes a llaith. Gyda thail y buarth a gwrteithiau gleision, cynyddir lefelau sylwedd organig y pridd, rhywbeth sy'n ffafrio gwlithod. Mae malwod yn tueddu i fod yn llai pwysig, ond gallant achosi problemau mewn gerddi ac ar ffrwythau câns.

### Gelynyon naturiol

Mae gwlithod yn brae i amrywiaeth o adar gan gynnwys yr ydfran, jac-y-do, cornchwiglen a gwahanol hwyaid, yn arbennig bridiau *Runner*.

Bydd fertebriaid, gan gynnwys llyffantod, draenogod, tyrchod daear a chwistlod, yn bwyta gwlithod hefyd.

Enghreifftiau o rai o'r pryfed llesol sy'n ysglyfaethu gwlithod a'u hwyau yw carabidau (chwilod y llawr) a staffylinidau (chwilod crwydr).

### Natur y Difrod

Yn gyffredinol bydd gwlithod yn bwydo gyda'r nos pan fydd yn gynnes ac yn llaith, ond mae rhai rhywogaethau (*Deroceras*) yn weithredol pan fydd y dymheredd yn isel. Bydd tywydd barugog a sych iawn yn lleihau gweithgarwch y gwlithod yn fawr, gan eu gyrru i lawr i'r pridd. Gall gwlithod fwydo tan y ddaear yn ogystal ag ar yr wyneb ar ddefnydd planhigion byw neu farw. Gall difrod amrywio o fwyta hedyn heb ei eginio a choesau eginblanhigion, i dynnu dail a manau tyfu uwch y ddaear. Ymosodir ar gloron a thapwreiddiau hefyd gyda thyllau yn cael eu gwneud ar yr wyneb ac, mewn rhai achosion, yn ddwfn i'r cnawd. Gan mwyaf ceir difrod i gloron a thapwreiddiau ar ôl haf a hydref gwlyb, er y bydd yn digwydd weithiau pan fydd y tywydd yn sych.



### Cylch bywyd

Mae gwlithod yn dodwy hyd at 50 o wyau bach mewn clystyrau ar wahanol adegau yn y flwyddyn, gan ddibynnu ar y rhywogaeth. Fel arfer maent yn cael eu dodwy mewn sylwedd organig sy'n pydru neu'n union dan wyneb y pridd. Yn y cyfnod hwn, gall dysychiad a barrug achosi cyfraddau marwolaethau uchel iawn. Bydd wyau sy'n cael eu dodwy yn ystod gwanwyn cynnes yn tueddu i ddeor ymhen tua thair wythnos; sut bynnag, os byddant yn cael eu dodwy yn ystod ar ddiwedd yr hydref, efallai na fyddant yn deor tan y gwanwyn canlynol. Ar ôl deor bydd gwlithod ifanc yn bwydo ar hwmws a defnydd organig tan y ddaear. Wrth iddynt aeddfedu, bydd gwlithod yn mynd yn eu blaenau i fwydo ar ddefnydd planhigion byw a marw. Nid oes gan rai rhywogaethau ond un tymor bridio yn y flwyddyn, tra bo gan rai eraill ddau neu fwy.

---

### Canolfan Organig Cymru · Nodyn Technegol Rhif 4 · Medi 2005

Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AL. Ffon 01970 622248

Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.

### Mesurau rheoli

- Bydd paratoi hadwelau mân yn lleihau symudiad gwllithod rhwng eu cysgod yn y pridd a'r cnwd. Bydd braenaru'r pridd pan fydd y dymheredd yn uchel neu'n isel iawn yn datgelu gwllithod ac wyau gwllithod iddynt gael eu disychedu a'u rhewi
- Er mwyn lleihau nifer y gwllithod mawr (*Arion* spp.) sy'n ymfudo tuag at gnydau diymgeledd o ardaloedd *setaside*, dylai fod gan ddolydd a gwrychoedd ardal warchoddedig 3-5m sy'n cael i thrin a'i chwynnu'n barhaus
- Mae *Phasmarhabdtis hermaphrodita* yn rhywogaeth o nematod sydd ar gael yn fasnachol ac sy'n cael hyd i wllithod ac yn eu parasiteiddio, gan darfu ar eu bwydo ac yn achosi eu marwolaeth ymhen 1-2 wythnos
- Gall ffensys gwllithod fod yn effeithiol o ran lleihau nifer y gwllithod sy'n ymfudo o wrychoedd ayyb. Sut bynnag, ni fydd ganddynt fawr o effaith ar y boblogaeth breswyl a dylent gael eu defnyddio ar y cyd â dulliau rheoli eraill, e.e. trapio neu gasglu â llaw
- Mae dulliau trapio yn cynnwys trapiâu bran, trapiâu cwrw a thrapiâu gwllithod sydd ar gael yn fasnachol. Os defnyddir trap denu gellir denu gwllithod o ardaloedd eraill i mewn i'r cnwd
- Mae casglu â llaw'n gyson fin nos a chyda'r wawr yn ddwyslafur ac yn drafferthus. Sut bynnag, gall fod yn ddefnyddiol ar y cyd â mesurau rheoli eraill ar gnydau hynod ddiymgeledd neu sy'n werthfawr iawn

### Gwybodaeth bellach

#### Llyfrau ac erthyglau

- David Frost (2003) *Review of pest and weed control in organic systems*, Canolfan Organig Cymru
- Marion Gratwick, *Crop Pests in the UK – Collected edition of MAFF leaflets*, MAFF / ADAS Published by Chapman & Hall, London 1992

#### Gwefannau

- Bayer crop science Expert Guides: Slugs (ddim yn organig un unig) <http://www.bayercropscience.co.uk/output.aspx?sec=273&con=592>
- Cyber-Help for Organic Farmers (UDA) , <http://www.certifiedorganic.bc.ca/rcbtoa/training/pestmanagement.htm>
- Database of IPM Resources (UDA) <http://ippc.orst.edu/DIR/index.htm>
- Henry Doubleday Research Association <http://www.hdra.org.uk>
- Organic Integrated Pest Management (UDA) [http://www.attra.org/attra-pub/summaries/organic\\_ipm.html](http://www.attra.org/attra-pub/summaries/organic_ipm.html)
- The *Pest Bulletin*, HDC. <http://www2.warwick.ac.uk/fac/sci/hri2/hdcpestbulletin/>

***Dylid nodi y gall gwefannau o'r UDA ddangos cylchau bywyd, amserau gwaith rheoli ac ati sydd ddim yn addas i Gymru***

---

### Canolfan Organig Cymru · Nodyn Technegol Rhif 4 · Medi 2005

*Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AL. Ffon 01970 622248*

*Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.*